

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 11: Adrannau 185-188

## Dyletswydd i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer y rhai mewn sefydliad diogel

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 11 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adrannau 185-188 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

### Dolen allweddol:

Cod Ymarfer Rhan 11 (Amrywiol a Chyffredinol)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part11cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 11 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

### Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adrannau 185 - 188** yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliad diogel, yn union fel y byddent yn ei wneud ar gyfer unigolion sy'n byw yn y gymuned.

Yn achos oedolion, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r unigolyn mewn carchar ynddi sydd i gyflawni'r ddyletswydd, ni waeth beth fo

cenedligrwydd na man preswyllo blaenorol yr unigolyn. Yn achos plant a phobl ifanc o Gymru, awdurdod lleol cartref yr unigolyn yng Nghymru

sydd i gyflawni'r ddyletswydd ni waeth pa un a yw mewn sefydliad diogel yng Nghymru ynteu yn Lloegr.

Caiff rhai darpariaethau dan y Ddeddf eu datgymhwyso'n benodol. Ni all y rhai mewn sefydliad diogel:

- Fod yn ofalwr
- Cael taliadau uniongyrchol
- Mynegi dewis o ran eu llety
- Cael gwarchod eu heiddo

### Beth mae'n ei wneud?

Ar hyn o bryd mae'r cyfrifoldebau ar gyfer diwallu anghenion gofal a chymorth y rhai mewn sefydliad diogel yn aneglur, ac mae hyn wedi arwain at ddryswch rhwng awdurdodau lleol, carchardai a sefydliadau eraill.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir mai ar awdurdodau lleol y mae'r ddyletswydd i ddarparu gofal a chymorth, er y bydd yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn amrywio gan ddibynnu pa un ai oedolyn ynteu plentyn/person ifanc yw'r troseddwr.

## Cydweddiad â'r Ddeddf

Mae pob rhan o'r Ddeddf yn berthnasol a dylid eu darllen ar y cyd â Rhan 11.

Bydd ar y rhai mewn sefydliad diogel angen mynediad cyfartal at:

- wybodaeth, cyngor a chynhorthwy,
- eiriolaeth,
- gwasanaethau ataliol,
- asesiad, cynllun gofal ac adolygiad ohono
- trefniadau diogelu, yn union fel pe baent yn byw yn y gymuned.

Er bod cyfyngiadau ffisegol mewn sefydliadau diogel, mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio ar y cyd gyda'r unigolyn i lunio datrysiadau priodol a chymesur, i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth a chyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.

## Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol?

Mae'r un ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y rhai sydd mewn sefydliad diogel ag sydd arnynt i ddiwallu anghenion oedolion a phlant eraill sy'n byw yn y gymuned.

Ni all awdurdodau lleol gyflawni'r dyletswyddau yn y Ddeddf ar eu pen eu hunain a dylent weithio mewn partneriaeth gyda'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd – Cymru
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
- Timau Troseddau Ieuencid
- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
- Y trydydd sector a'r sector annibynnol

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol â sefydliad diogel o fewn eu ffiniau ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhyngddynt hwy a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli

Troseddwyd a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i'r trefniadau partneriaeth hyn gwmpasu cydgyfrifoldebau diogelu sefydliadau diogel ac awdurdodau lleol. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r trefniadau penodol ar gyfer oedolion, ac ar wahân ar gyfer plant, yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 11 a Chyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 16/2016 ynghylch diogelu yn y carchar.

Ar ben hynny, mae'n rhaid i staff a gyflogir gan awdurdodau lleol y mae arnynt angen cyswllt rheolaidd, mynych a heb oruchwyliaeth ag unigolion mewn sefydliadau diogel gael gwiriadau diogelwch a bodloni gofynion eraill o ran cael cliriadau.

## Rhagor o wybodaeth

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

[http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw\\_20140004\\_we.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf)

### Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=CY>

### Y Fframwaith Mesur Perfformiad:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005code-of-practicecy.pdf>

### Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814nofcy.pdf>

### Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>

### Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 16/2015: Diogelu oedolion yn y carchar

<http://www.justice.gov.uk/offenders/psis>